VOLUNTARY ACTION
GWEITHREDU GWIRFODDOL

VOLUNTARY ACTION MERTHYR TYDFIL
GWEITHREDU GWIRFODDOL MERTHYR TUDFUL

Adroddiad Blynyddol 2010 | 2011

Datganiad o Fwriad

Cefnogi, cynrychioli a helpu datblygu sefydliadau trydydd sector a gwirfoddoli o ansawdd uchel ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Datganiad o Weledigaeth

- Dod yn ganolfan ragoriaeth ym Merthyr Tudful ar gyfer darparu gwasanaethau i sefydliadau ac unigolion sy'n ymwneud â'r trydydd sector a gwirfoddoli.
- Creu cymdeithas sifil iach drwy helpu i ddatblygu sefydliadau i fodloni eu hanghenion, hyrwyddo cyfleoedd i wirfoddoli gymaint â phosibl a rhannu ein cenhadaeth a'r holl randdeiliaid allanol.

VOLUNTARY ACTION
GWEITHREDU GWIRFODDOL

Canolfan Gweithredu Gwirfoddol · 89/90 Pontmorlais
Stryd Fawr · Merthyr Tudful · CF47 8UH

Ffôn: 01685 353900 · Ffacs: 01685 353909
E-bost: enquiries@vamt.net · Y we: www.vamt.net

communities first cymunedau yn gyntaf

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

European Union
European Social Fund
Investing in jobs and skills

Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagair y Cadeirydd a'r Prif Swyddog

Rydym yn falch o gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer pedwaredd flwyddyn ar ddeg Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (GGMT) yn gweithredu.

Brian Lewis

Ian Davy

Bu'n flwyddyn lwyddiannus arall i GGMT fel y mae'r cyflawniadau ar y tudalennau canlynol yn ceisio'i ddangos. Casglwyd yr ystadegau am y tro cyntaf gan ddefnyddio fframwaith monitro symlach newydd ar gyfer yr holl Gynghorau Gweithredu Gwirfoddol yng Nghymru.

Mae Compact Merthyr Tudful yn parhau ar waith gyda chytundeb y Codau Ymarfer ar Wirfoddoli, Gweithio mewn Partneriaeth a Chyfryngu a Datrys Anghydfodau. Lansiwyd y rhain gan Carl Sargeant, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, a'r her yn awr yw sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n llawn a'u bod yn cydymffurfio. Hefyd, mae'r prosiect i ddatblygu Côd Ymarfer ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau Trydydd Sector bron â'i gwblhau. Diolchwn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Cwm Taf am eu cefnogaeth barhaus i'r Compact.

Datblygiad mawr arall yn ystod y flwyddyn fu trosglwyddo Cymunedau yn Gyntaf Dowlais o'r awdurdod lleol i GGMT. Mae croeso mawr iddynt.

Bu Cronfa Swyddi'r Dyfodol o gryn fudd i GGMT eleni. Aethom ati i recriwtio ugain aelod o staff. Cwblhaodd deg o'r rheiny eu hamser gyda GGMT yn ystod y flwyddyn. O'r rheiny, daeth tri ohonynt o hyd i gyflogaeth barhaol, symudodd dau ymlaen i brifysgol/coleg, ac mae un wedi aros gyda GGMT fel gwirfoddolwr.

Lansiodd Bwrdd GGMT Gynllun Strategol newydd ar gyfer GGMT yn ystod y flwyddyn, a dechreuodd waith ar weithredu fframwaith sicrhau ansawdd nôd barcud ar draws GGMT.

Bydd y blynyddoedd sy'n dod yn anodd iawn i'r trydydd sector wrth i doriadau cyllid y sector cyhoeddus barhau, ac ni fydd GGMT yn imiwn i hyn. Bydd yn rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd.

Fel Cadeirydd a Phrif Swyddog rydym yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn parhau yn sefydliad cryf ac effeithiol, ond dim ond gyda thîm ymroddedig o ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr y gallwn gyflawni hyn. Diolchwn iddynt am eu cefnogaeth a'u gwaith caled.

Yn olaf, mae'n rhaid i ni fanteisio ar y cyfle i ddiolch i brif arianwyr GGMT am eu cefnogaeth parhaus; sef Llywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Cwm Taf, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Chronfa'r Loteri Fawr. Diolch hefyd i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru sy'n gweinyddu nifer o'r cynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru y mae GGMT yn elwa ohonynt.

Brian Lewis
Cadeirydd

Ian Davy
Prif Swyddog

Ffeithiau a Ffigurau

Gwybodaeth gyffredinol, arweiniad a chymorth

Nifer o sesiynau ymwelwyr â'r wefan	**28,796**
Cyfanswm nifer yr ymholiadau a dderbyniwyd ac yr ymatebwyd iddynt	**2613**
Cyfanswm nifer yr ymholiadau yn arwain at gyngor a chymorth dilynol	**456**
Nifer y cylchgronau / cylchlythyrau a gyhoeddwyd	**5**
Nifer y derbynyddion ar gyfer pob rhifyn	**584**
Nifer y bwletinau gwybodaeth gyffredinol a gyhoeddwyd	**3**
Nifer y derbynyddion ar gyfer pob rhifyn	**399**
Nifer y bwletinau gwybodaeth arbenigol a gyhoeddwyd yn rheolaidd	**94**
Nifer o achlysuron pan ddarparwyd gwasanaethau ymarferol	**385**

Hyfforddiant

Nifer o gyrsiau'r fframwaith hyfforddi a ddarparwyd	**15**
Nifer y cyfranogwyr	**208**
Nifer y cyrsiau heb fod yn rhan o'r fframwaith hyfforddi a ddarparwyd	**19**
Nifer y cyfranogwyr	**162**

Gwirfoddoli

Nifer y cyfeiriadau o'r wefan	**78**
Nifer yr ymholiadau i'r ganolfan wirfoddoli	**825**
Nifer y cyfweliadau yn y ganolfan wirfoddoli	**425**
Nifer y hwirfoddolwyr a gafodd eu lleoli (pob oed)	**220**
Nifer y bobl ifanc a gafodd eu lleoli	**66**
Nifer yr ymholiadau y deliwyd â hwy gan sefydliadau ynglŷn ag arfer da mewn gwirfoddoli	**33**
Nifer yr ymholiadau ynglŷn ag arfer da mewn gwirfoddoli yr oedd angen cyngor a chymorth dilynol arnynt	**8**
Nifer y digwyddiadau dathlu / hyrwyddo	**2**
Nifer yr unigolion yn cyfranogi yn y digwyddiadau y cyfeirir atynt uchod	**314**

Ymddiriedolwyr a llywodraethu

Nifer yr ymholiadau gan ymddiriedolwyr a dderbyniwyd ac yr ymatebwyd iddynt	**41**
Nifer y digwyddiadau ymddiriedolwyr a drefnwyd	**0**

Cyngor ariannu

Nifer yr ymholiadau ariannu a dderbyniwyd ac yr ymatebwyd iddynt	**122**
Nifer yr ymholiadau ariannu yn arwain at gyngor a chymorth dilynol	**50**
Swm y cyllid y gofynnwyd amdano yn ystod y cyfnod	**£2,327,887**
Swm y cyllid a gafwyd yr hysbyswyd amdano yn ystod y cyfnod adrodd	**£583,494**

Nifer y grwpiau a gynghorwyd sy'n derbyn cyllid fel yr hysbyswyd amdano yn ystod y cyfnod adrodd	**51**
Nifer y digwyddiadau codi arian a drefnwyd	**3**
Nifer y cyfranogwyr	**33**

Gweinyddu grantiau

Swm y cyllid y gofynnwyd amdano gan ymgeiswyr	**£90,314**
Swm y cyllid a ddosbarthwyd	**£52,187**
Nifer y grwpiau a gafodd eu hariannu	**31**

Mentrau newydd a datblygu cymunedol

Nifer y grwpiau newydd a sefydlwyd gyda chymorth CGS	**12**
Nifer y gwasanaethau newydd a sefydlwyd gan sefydliadau presennol gyda chymorth CGS	**24**
Nifer y prosiectau neu bartneriaethau datblygu cymunedol a gynorthwywyd	**197**

Polisi a gwasanaethau cyhoeddus

Nifer yr ymholiadau polisi/ gwasanaethau cyhoeddus a dderbyniwyd ac yr ymatebwyd iddynt	**145**
Nifer yr ymholiadau polisi/ gwasanaethau cyhoeddus yn arwain at gyngor a chymorth dilynol	**66**
Nifer yr ymgynghoriadau polisi a gyhoeddwyd	**40**
Nifer yr ymatebion a wnaed i'r ymgynghoriadau polisi	**14**
Nifer y fforymau neu rwydweithiau trydydd sector a gefnogwyd	**10**
Nifer y grwpiau cynllunio strategol/ gweithgorau a fynychwyd gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS) a/neu sefydliadau trydydd sector eraill	**99**
Nifer y cynrychiolwyr trydydd sector eraill (ac eithrio staff CGS) ar grwpiau cynllunio strategol / gweithgorau	**80**
Nifer y sefydliadau a nodwyd yn yr ardal sy'n cyflwyno/ dymuno cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus	**17**
Nifer y rhwydweithiau darparwyr gwasanaethau lleol yn cael cymorth gan CGS	**2**
Nifer y sefydliadau darparwyr gwasanaethau yn gysylltiedig	**47**
Nifer y consortia/partneriaethau darparwyr lleol a gynorthwywyd	**0**
Nifer y sefydliadau y rhoddwyd arweiniad iddynt ar dendro a chynigion am gyllid gwasanaeth cyhoeddus	**11**
Sefydliadau trydydd sector yn aelodau	**210**
Sefydliadau trydydd sector ar y gronfa ddata	**498**

Rhai Uchafbwyntiau

Mae digwyddiadau a datblygiadau nodedig yn cynnwys:

Cynnydd sylweddol yn nifer yr unigolion sy'n gofyn am **gyfweliadau gwirfoddoli** yn ogystal â chynnydd sylweddol yn y cyfeiriadau o asiantaethau partner. Nid yw pob un o'r cyfeiriadau yn addas ar gyfer gwirfoddoli, ond cânt eu trosglwyddo i sefydliadau amrywiol ar gyfer hyfforddiant neu gymorth pellach.

Bu cynnydd hefyd yn nifer y **cyfleoedd gwirfoddoli newydd** ym Merthyr Tudful. Ar ddiwedd y flwyddyn, dangoswyd 311 ar wefan Gwirfoddoli yng Nghymru.

Ym mis Gorffennaf 2010, cynhaliwyd seremoni flynyddol **Gwobrau Cyflawniadau Gwirfoddoli Rhagorol** i wobrwyo 13 o enillwyr a ddewiswyd gan banel annibynnol o feirniaid o blith enwebiadau o sefydliadau gwirfoddol ledled y Fwrdeistref Sirol. Gwahoddwyd enillwyr y gwobrau i'r Senedd i gyfarfod â'r Prif Weinidog, Carwyn Jones AC a Huw Lewis AC.

Fe wnaeth **prosiect Evolve** recriwtio 106 o ddarpar wirfoddolwyr. Roedd 32 o wirfoddolwyr yn weithredol yn ystod y flwyddyn, a llwyddodd 43 i gwblhau'u hyfforddiant sefydlu. Mae 14 o wirfoddolwyr wedi symud ymlaen i addysg bellach neu gyflogaeth mewn gofal cymdeithasol. Gweithiwyd 3965 o oriau gwirfoddoli sy'n gyfwerth â chost o £23,512 (o dalu isafswm cyflog). Derbyniodd 33 o gleientiaid wasanaeth yn ystod y flwyddyn, ac mae rhestr aros o 56 o gleientiaid.

Mae'r **Rhaglen Cleifion Arbenigol** wedi cyflawni 5 o raglenni. Llwyddodd 28 o gyfranogwyr i gwblhau'r cwrs. Erbyn hyn mae gan y rhaglen dîm o 3 o wirfoddolwyr swyddfa, 7 o diwtoriaid gwirfoddoli ac 1 asesydd/cydlynydd.

Ar hyn o bryd mae gan Bartneriaeth **Cymunedau yn Gyntaf Trefechan** 22 o wirfoddolwyr sydd gyda'i gilydd wedi cyfrannu dros 335 o oriau o wirfoddoli i'r rhaglen eleni. Mae 4 gwirfoddolwr bellach wedi symud i gyflogaeth am dâl.

Mae **Cymunedau yn Gyntaf Dowlais** wedi cynyddu ei weithgarwch gwirfoddoli, ac mae nifer o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi dod yn wirfoddolwyr gweithredol yn y fforwm ieuenctid, ac mae niferoedd y gwirfoddolwyr yn y cwmni cydweithredol a'r grŵp cerdded wedi cynyddu.

Mewn ymateb i'r galw o'r sector, mae hyfforddiant **Ymwybyddiaeth Amddiffyn Plant** wedi'i ddarparu i'r ymddiriedolwyr.

Sefydlwyd y **prosiect "Paratoi i Ofalu"** ar y cyd â MIND i gyflwyno pecyn hyfforddiant i ddarpar wirfoddolwyr sy'n dymuno cael profiad yn y sector gofal.

Darparwyd cyngor a chymorth ar **lywodraethu** i Ganolfan a Menter Gymraeg, Grŵp Gweithredu Twynyrodyn, Cylch Meithrin Twyncarmel, Clwb Bocsio Dowlais, Cylch Chwarae Little Rascals, Prosiect Datblygu Creadigol Ieuenctid Merthyr, Grŵp Cymunedol Pant, Grŵp Dawns a Hamdden 50+ Cefn Coed a Threfechan, Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol y Graig, Grŵp Celf a Chrefft Georgetown, Piece of Mind a Chylch Chwarae Plant Bach.

Darparwyd cyngor ar **farchnata** i Rhoi Pobl yn Gyntaf Merthyr, Eglwys Hope & Market Square ac i Brosiect Ieuenctid Forsythia.

Darparwyd cymorth ar **gynllunio busnes** i Sefydliad Gellideg (Salon), Green Horizons, Cymdeithas Gymunedol Trefechan, Cymdeithas Gymunedol Fir Tree Drive, Fforwm Datblygu Cymunedol Dowlais, Prosiect Ieuenctid Forsythia, Cymdeithas Gymunedol Trefechan, Jack and Jill's, Clwb Bechgyn a Merched Penydarren, Clwb Bowlio Merched Bedlinog, Darpariaeth Cyn Ysgol Trefechan a Rhoi Pobl yn Gyntaf Merthyr.

Darparwyd **cyngor ar gyllid** i MIND Merthyr a'r Cymoedd, Clwb Bowlio Merched Bedlinog, Cylch Chwarae Jack and Jill, Clwb Bechgyn a Merched Penydarren, Eyelights, Trigolion Kevin Ryan Court, Trigolion Ward Park a 2 grŵp ieuenctid Park Ward fel rhan o Rhaglen y Farwnes Newlove, Cysgodfan Ieuenctid y Parc Sglefrio, Clwb Bechgyn a Merched Georgetown, Grŵp Synhwyrau Merthyr Tudful, Cymdeithas Adar mewn Cewyll Merthyr, Grŵp Dawns Trefechan, Brownies Trefechan a Cefn, Cymdeithas Gymunedol Trefechan, Capel Tabor, Clwb Rygbi Cefn, Clwb Ieuenctid Trefechan, Grŵp yr Henoed Dowlais, Clwb Cinio Dowlais, Cymdeithas Caeau Reiffls ICI. Yn ychwanegol, cafwyd cyllid a wnaeth alluogi 145 o drigolion yn ward Park i gael gosod larymau SMART.

Mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, adolygwyd y broses ariannu HARP, a hefyd aethpwyd ati i werthuso mynegiannau o ddiddordeb yn y trydydd sector, a arweiniodd at **sefydliadau'r trydydd sector yn cael £450,000** o'r broses.

Mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, datblygwyd **Protocol Ariannu Trydydd Sector** a chynhaliwyd cyfarfodydd cyntaf Panel Arfarnu Technegol ar y Cyd a Phanel Grantiau'r Sector Gwirfoddol.

Mae'r **Prosiect Cymorth TG (VITAL)** wedi cynorthwyo 20 o sefydliadau yn y flwyddyn, gan gynnwys datblygu gwefan, ac amrywiaeth o gymorth technegol TG.

Darparodd prosiect **Engagement Gateway** gyngor ac arweiniad i 29 o brosiectau ar dendro i'r cynllun, a chyngor ac arweiniad i 22 o brosiectau cyflawni sy'n mynd i'r afael â gweithgarwch economaidd. Maent yn cynnwys Undeb Credyd Merthyr Tudful, Journeys, Gofal, MIND Merthyr a'r Cymoedd, Hyfforddiant Dare, MTIB, Ymddiriedolaeth Datblygu 3G, Interlink.

Mae **Cymunedau yn Gyntaf y Dref a'r Parc** wedi datblygu Clwb Gweithgareddau Little Monsters, Partneriaeth ar gyfer Gweithredu Cymunedol (PACT) Ieuenctid yn Ysgol Iau Cyfarthfa, wedi trefnu Diwrnod Ymwybyddiaeth Mynd i Weithio, mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, wedi cyflwyno digwyddiad CRASH gan dargedu gyrwyr a theithwyr ifanc fel modd o gyfleu'r neges am yrru'n ddiogel, wedi helpu datblygu'r Ystafell Synhwyrau ac Adsefydlu yng Nghanolfan Midec gyda Chanolfan ar gyfer Pobl â Nam ar eu Golwg Merthyr, Merthyr Eyelights a Talking Hands.

Fe wnaeth Cymunedau yn Gyntaf y Dref a'r Parc helpu i fynd i'r afael â materion pwysig yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol canfyddedig drwy ddull gweithredu amlasiantaeth yn y **Parc Sglefrio**. Aeth Cymunedau yn Gyntaf ati i arwain ar drefnu Cystadleuaeth Sgrialu a Sglefrolio, ynghyd â Hyfforddiant Chwarae Bowls am ddim, gyda chymorth gan SMT, Clwb Bowlio Rhydycar a Thîm Ieuenctid y Stryd MTCBC. Cyfranogodd 31 o bobl ifanc, a daeth rhyw 100 i'r digwyddiad.

Bu **Cymunedau yn Gyntaf Trefechan** yn helpu i ddatblygu gwasanaeth allgymorth newydd yn cael ei ddarparu gan y Prosiect Money Made Clear, ac fe wnaeth helpu i ddatblygu Gwasanaethau Undeb Credyd, Grŵp Clwstwr Gogledd Merthyr a PACT Ieuenctid Trefechan.

Mae Compact Merthyr Tudful yn cael ei weithredu, ac mae **Côdau Ymarfer** ar "Wirfoddoli", "Gweithio mewn Partneriaeth" a "Chyfryngu a Datrys Anghydfodau" wedi'u cymeradwyo gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Bwrdd Iechyd Cwm Taf, a Bwrdd GGMT. Lansiwyd y Côdau gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Carl Sargeant AC ym mis Rhagfyr 2010.

Aeth GGMT ac Interlink, ynghyd â gweithwyr y Bwrdd Iechyd, ati i drefnu **"An Audience With...Bwrdd Iechyd Cwm Taf"** ar gyfer y trydydd sector ar draws Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Cynhaliwyd y digwyddiad ymgynghori **"Cracking the Code"** i ymgynghori ar y drafft o Gôd Ymarfer y Sector Cyhoeddus ar gyfer comisiynu gwasanaethau trydydd Sector. Bydd y Côd Ymarfer a'r wefan i'w gefnogi yn cael eu lansio mewn digwyddiad ym mis Mehefin 2011.

Sefydlwyd y Rhwydwaith Cyflwyno Gwasanaethau ym mis Rhagfyr, yn dilyn digwyddiad a gynhaliwyd ar y cyd ag Interlink o'r enw **"The Big Challenge"**. Cynhaliwyd ymarferiad mapio i ganfod diddordeb sefydliadau trydydd sector lleol ynglŷn â'r gwasanaethau cyhoeddus y gall fod diddordeb ganddynt i'w darparu.

Mae GGMT wedi datblygu **model ar gyfer cyfranogi ym mhwyllgorau craffu'r awdurdod lleol**. GGMT sy'n gyfrifol am reoli'r broses o benodi cynrychiolwyr trydydd sector, fel aelodau cyfetholedig o'r pwyllgorau wedi'u hailstrwythuro, ac mae aelod trydydd sector ar gyfer pob un o'r pedwar pwyllgor erbyn hyn. Mae hyn wedi'i gydnabod gan gyrff cenedlaethol fel enghraifft o arfer da.

Chwarae rhan bwysig yn cyfrannu at **Gynllun Cymunedol** newydd Merthyr Tudful a gytunwyd gan yr holl bartneriaid ym mis Medi 2010.

Cyfranogodd yn **Adolygiad Partneriaeth** y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a gwnaeth gynigion ar gyfer cynhwysiant mewn strwythur Merthyr Tudful a lle gall partneriaethau / gweithio ar y cyd ehangu ar draws Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Cefnogwyd datblygu **strategaeth cydlyniant cymunedol**.

Cyd-drefnwyd digwyddiad trydydd sector fel rhan o'r ymgynghoriad ar gyfer **Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles** 2011-2014, er mwyn sicrhau bod y trydydd sector yn cael cyfle i roi'u barnau gerbron.

Cydlynwyd datblygiad **Strategaeth Gofalwyr** Merthyr Tudful (2011-2016) gan sicrhau cyfranogiad gan ofalwyr a chyfranogiad aml-asiantaeth.

Cyfrifon Archwiliedig

Datganiad o Weithgareddau Ariannol (yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant)

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011

	2011 Anghyfyngedig £	2011 Dynodedig £	2011 Cyfyngedig £	2011 Cyfanswm £	2010 Cyfanswm £
Adnoddau yn Dod i Mewn					
Adnoddau yn Dod i Mewn o Gronfeydd wedi'u Cynhyrchu:					
Incwm Rhent a Llety	48,366	-	-	48,366	43,368
Llog y banc	903	-	-	903	1,916
Gweithgareddau masnachu	20,327	-	240	20,567	22,480
Adnoddau yn Dod i Mewn o Weithgareddau Elusennol:					
Cyllid grant	171,206	-	921,271	1,092,477	812,214
Ffioedd Rheoli	70,473	-	-	70,473	27,468
Incwm arall	9,373	-	6,100	15,473	9,569
Cyfanswm Adnoddau yn Dod i Mewn	**320,648**	**0**	**927,611**	**1,248,259**	**917,015**
Adnoddau a Wariwyd					
Costau Cynhyrchu Cronfeydd	8,139	-	4,410	12,549	15,732
Gweithgareddau Elusennol	252,403	27,062	890,187	1,169,652	904,347
Costau Rheoli	28,739	-	2,851	31,590	22,552
Cyfanswm Adnoddau a Wariwyd	**289,281**	**27,062**	**897,448**	**1,213,791**	**942,631**
Incwm/(gwariant) net ar gyfer y flwyddyn	31,367	(26,062)	30,163	34,468	(25,616)
Trosglwyddiadau rhwng Cronfeydd	(4,233)	10,460	(6,227)	-	-
Symudiad Net mewn Cronfeydd	27,134	(16,602)	23,936	34,468	(25,616)
Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen	210,817	416,130	67,524	694,471	720,087
Cronfeydd a ddygwyd ymlaen	**237,951**	**399,528**	**91,460**	**728,939**	**694,471**

Mae'r datganiad o weithgareddau ariannol yn cynnwys yr holl enillion a cholledion yn ystod y flwyddyn. Mae'r holl adnoddau yn dod i mewn a'r adnoddau a wariwyd yn deillio o weithgareddau parhaus.

Cyfrifon Archwiliedig *(parhad)*

Mantolen

Ar 31 Mawrth 2011

	2011 £	2010 £
Asedau Sefydlog		
Asedau Sefydlog Diriaethol	433,036	449,414
Asedau Cyfredol		
Dyledwyr a rhagdaliadau	58,606	60,480
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	321,618	247,493
	380,224	**307,973**
Rhwymedigaethau: Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn	84,321	62,916
Asedau Cyfredol Net	295,903	245,057
Asedau Net	**728,939**	**694,471**
Cronfeydd		
Cronfeydd Cyfyngedig	91,460	67,524
Cronfeydd Anghyfyngedig		
Cronfeydd Dynodedig	399,528	416,130
Cronfeydd Elusennol Eraill	237,951	210,817
Cyfanswm Cronfeydd	**728,939**	**694,471**

Aelodau Staff 2010/2011

Bwrdd

1 Ebrill 2010 – 31 Mawrth 2011

Enwau'r Cyfarwyddwyr

Brian Lewis – Cadeirydd
Eric Leslie – Is-gadeirydd
Paul Gray – Trysorydd
John Meredith MBE
Helen Thomas
Dr Arthur Jones
Yvonne Wood (ymddiswyddodd Rhagfyr 2010)
David Guard
Jenny Ludlow
Nicola Mahoney
Arnold Jones (cyfetholwyd o fis Ionawr 2011)

Alison Harris
Swyddog Datblygu Partneriaethau

Alyson King
Cydlynydd Cymunedau yn Gyntaf Trefechan

Carol van den Berg
Swyddog Cyswllt Engagement Gateway

Carol Hindley
Rheolwr Gweinyddol ac Ariannol

Caroline Jones
Cydlynydd y Rhaglen Cleifion Arbenigol

Cheryl Sneddon
Swyddog Datblygu Cymunedau yn Gyntaf – Dowlais (o fis Hydref 2010)

Clair Houston
Swyddog Datblygu Cymunedau yn Gyntaf – y Dref a'r Parc

Dafydd Short
Swyddog Cymorth TGCh (VITAL) (hyd fis Mai 2010)

Danielle Griffiths
Cynorthwyydd Clercio (o fis Mehefin hyd Hydref 2010)

Derek Emanuel
Swyddog Datblygu TGCh (VITAL)

Elaine James
Cydlynydd Prosiect Evolve/ Swyddog Datblygu'r Strategaeth Gofalwyr

Emina Redzepovic
Swyddog Cyfathrebu (hyd at fis Rhagfyr 2010)

Fiona Griffiths
Cynorthwyydd Clercio (o fis Mawrth 2011)

Frances Barry
Swyddog Gwirfoddoli/ Gwirfoddoli Ieuenctid

Glenn Booth
Swyddog Cymorth TGCh (VITAL) (o fis Chwefror 2011)

Hayley Jenkins
Swyddog Datblygu Cymunedau yn Gyntaf – Dowlais (o fis Hydref 2010)

Helen Lewis
Gweithiwr Ieuenctid – Dowlais (o fis Tachwedd 2010)

Hilary Edwards
Dirprwy Brif Swyddog

Ian Davy
Prif Swyddog

James Hawker
Swyddog Cynhwysiant Ieuenctid – Dowlais (o fis Hydref 2010

Jonathan McLoughlin
Cydlynydd Cymunedau yn Gyntaf – Dowlais (Yn ystod cyfnod mamolaeth) (o fis Hydref 2010)

Karen Foley
Swyddog Gwirfoddoli

Kristopher Wise
Swyddog Cymorth TGCh (VITAL) (o fis Mehefin i Ragfyr 2010

Laura Johnson
Swyddog Gweinyddol ac Ariannol

Leanne Colvin
Cynorthwyydd Clercio (Evolve) (o fis Chwefror 2011)

Leanne Payne
Glanhawr/Gofalwr Trefechan

Lee Price
Swyddog Cymorth TGCh (VITAL) (o fis Gorffennaf 2010 i Ionawr 2011)

Lesley Dobson
Rheolwr Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf (o fis Tachwedd 2010)

Linda Bevan
Gweinyddydd – Cymunedau yn Gyntaf Dowlais (o fis Hydref 2010)

Lisa Toghill
Cydlynydd Cymunedau yn Gyntaf – Dowlais (o fis Hydref 2010)

Louise Saunders
Swyddog Cymorth Datblygu - Cymunedau yn Gyntaf Trefechan

Margaret McLaughlin
Swyddog Prosiect Polisi Comisiynu[1]

Maria Abson
Swyddog Datblygu Iechyd Meddwl[2]

Michelle Powell
Cydlynydd Cymunedau yn Gyntaf – Y Dref a'r Parc

Neil Wakeham
Cynorthwyydd Clercio – Cymunedau yn Gyntaf y Dref a'r Parc (o fis Mawrth 2011)

Nicola Davies
Cynorthwyydd Gweinyddol - Cymunedau yn Gyntaf y Dref a'r Parc

Nicola Sofianos
Cynorthwyydd Clercio (Evolve) (o fis Medi 2010 hyd Ionawr 2011)

[1] Swydd ar y cyd ag Interlink RCT
[2] Swydd ar y cyd ag Interlink RCT

Nikolai Batowski
Swyddog Cymorth TGCh (VITAL) (o fis Tachwedd 2010)

Pam Lucas
Swyddog Prosiect 323 (o fis Ionawr 2010)

Pat Kew
Swyddog Cymorth Evolve (hyd fis Awst 2010)

Rachel Wyatt
Swyddog Datblygu Defnyddwyr Gwasanaethau Iechyd Meddyliol[3]

Rhonda Braithwaite
Swyddog Datblygu Cymunedau yn Gyntaf – Y Dref a'r Parc

Richard Williams
Glanhawr/Gofalwr (o fis Gorffennaf 2010 i Ionawr 2011)

Sally McIntyre
Swyddog Datblygu Cymunedol - Cymunedau yn Gyntaf Trefechan

Sarah Farr
Cynorthwyydd Clercio (Canolfan Gwirfoddolwyr) (o fis Tachwedd 2010)

Sean Donnelly
Gweithiwr Ieuenctid – Dowlais (o fis Awst 2010 i Ionawr 2011)

Sharon Richards
Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Tanya Price
Cynorthwyydd Clercio (o fis Tachwedd 2010)

Thalia Phillips
Cynorthwyydd Clercio (Canolfan Gwirfoddolwyr) (o fis Mawrth 2011)

Tomas Leaver
Cynorthwyydd Clercio (Canolfan Gwirfoddolwyr) (o fis Mai i Medi 2010)

Tracy Daniels
Glanhawr/Gofalwr (o fis Chwefror 2011)

Vicky Lewis
Cynorthwyydd Clercio (hyd Fehefin 2010)

[3] Swydd ar y cyd ag Interlink RCT

Gwirfoddolwyr

Alan Evans
Christine Thomas
Dafydd Short (VITAL)
David Lewis (VITAL)
Simon Williams (VITAL)
Joy Davies
Louise Patterson
Laura Jenkins (Cymunedau yn Gyntaf y Dref a'r Parc)
Nicola Sofianos
Tanya Price (Cymunedau yn Gyntaf Trefechan)

Gwirfoddolwyr Evolve

Glyn Bailey
Alison Davies
Chris Davies
Cherryll Dade-Owens
Brian Edwards
Hilary Edwards
Lesley Evans
Melvyn Fitzgerald
Christopher Gilbert
Joanne Gilbert
Laura Harvey
Kelly Holmes
Sian Griffiths
Leigh Gwynne
Emily Jenkins
Anthony Keating
Patricia Kew
William McArthur
Raymond Mason
Valerie Mason
Kirsty Purnell
Eric Serebro
Sheryl Rees
Kerry Richards
Laura Toon
Christine Thomas
Christopher Thomas
Michael Thomas
Norma Thomas
Carl Watkins
Rachael Webber
Hannah Mary Young

Gwirfoddolwyr y Rhaglen Cleifion Arbenigol

Wendy Bradley
Sharon Jones
Wendy Jones
David Phillips
Margaret Roberts
Mel Shott
Neil Stonelake
Joan Greaney
Mark Simms
Yvonne Urmston